

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Lle held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Iau, 14eg Rhagfyr, 2023 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor Lisa Dymock (Chairman)  
County Councillor Jane Lucas, (Vice Chairman)

County Councillors: Louise Brown, Emma Bryn, Jane Lucas, Maria Stevens, Jackie Strong, Tudor Thomas, Laura Wright, Paul Griffiths and Catrin Maby

Also in attendance County Councillors:  
Paul Griffiths, Cabinet Member for Planning and Economic Development and Catrin Maby, Cabinet Member for Climate Change and the Environment

## Officers in Attendance

Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle  
Mark Hand, Pennaeth Lluo Lluo Lle, Tai, Prifffyrdd a Llifogydd  
Hannah Jones, Pennaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau  
Nigel Leaworthy, Rheolwr Masnachol a Gweithrediadau  
James Woodcock, Rheolwr Deall Busnes

**APOLOGIES:** County Councillor Tomos Davies

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

### 2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Dim.

### 3. Craffu Cyn Penderfyniad – Craffu ar Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau a chynllun gweithredu Sir Fynwy i osod yr uchelgais economaidd ar gyfer y sir.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths yr adroddiad. Cyflwynodd Hannah Jones a James Woodcock gyflwyniad ac ateb cwestiynau'r aelodau gyda'r Cynghorydd Sirol Griffiths a Mark Hand.

#### Cwestiynau allweddol gan aelodau:

- Sut cyrhaeddwyd â'r rhif o 6,240 o swyddi? A yw hyn wir yn mynd i'r afael ag anghenion Sir Fynwy h.y. swyddi mewnol i dorri allan cymudo?
- Sut mae'r strategaeth hon yn cysylltu â'n hanghenion? e.e., gyda demograffig sy'n heneiddio, bydd mwy o angen am y sector gofal - ydyn ni'n mynd i gael tai i weithwyr allweddol? Sut mae hyn yn ymwneud ag adroddiad Plant a Phobl Ifanc blaenorol a ddywedodd fod gwaith yn cael ei anelu at y sector gofal?
- O ran Menter, a fyddai'n ddefnyddiol ychwanegu rhywbeth am brentisiaethau gydag ysgolion lleol?
- O ran twristiaeth, beth yw'r dystiolaeth o ran yr angen am westai?

- O ran Caffael Cyhoeddus, un broblem gyda rheoliadau'r UE oedd ran pobl leol, nad oeddent o reidrydd yn cael eu cyflogi ar gyfer contractau'r cyngor. Ydy hynny wedi gwella ar ôl Brexit ac a allwn ni hybu'r gwaith mae Sir Fynwy yn ei wneud?
- Mae awdurdodau eraill wedi ystyried a allai tai gweithwyr allweddol, os na ellir ei lenwi gan bobl o'r galwedigaethau penodol hynny, gael eu defnyddio ar gyfer pobl gymwys eraill - a yw hynny wedi cael ei ystyried?
- I nodi cywiriad: mae'r adroddiad yn sôn am bysgotwyr rhwydi gafll olaf Cymru sy'n arfer y traddodiad yng Nghil-y-coed ond, mewn gwirionedd, oherwydd rheolau CNC ni chaniateir iddynt bysgota ar hyn o bryd.
- Beth yw'r data cymudo i mewn ac allan o Lannau Hafren? A yw'n gyfystyr â llawer o'r symudiad cyffredinol i mewn ac allan o'r sir?
- Mae angen ffordd gyswllt oddi ar yr M48 i liniaru tagfeydd ar y B4245 - pa effaith mae tagfeydd a thraffig yn ei gael ar yr economi leol?
- Pam nad yw'r Polisi Trafnidiaeth Lleol yn eistedd yn yr adran yn dwyn y teitl 'Cyd-destun Strategol'? A yw'r diffyg trafndiaeth yn mygu cyfleoedd economaidd e.e. a yw'r cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus wael yn Nhrefynwy yn her i fusnesau sydd am ehangu i'r sir?
- P43 a chyfleoedd dysgu: pam nad oes sôn am un o'r rhwystrau mynediad mwyaf i bobl ifanc sy'n ceisio ennill cymwysterau addysg uwch, sef rhwystredigaeth cael mynediad i golegau yn gorfforol oherwydd diffyg cysylltiadau trafndiaeth?
- Pam nad oes sôn am ofyn am fargen well o dan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, neu nad ydym bellach yn rhan o'r cynllun i ymuno â gwasanaethau trên a bysiau ar draws y rhanbarth?
- Ni ddylid ystyried llwybr Teithio Llesol Kingsgate ar P70 fel arfer gorau ar gyfer blaenoriaethu teithio llesol gan nad oes llwybr cerdded diogel i'r dref o Kingswood Gate, gyda'r cam olaf heb ei gynllunio i gael ei adeiladu tan 2024, ac mae'n dal i fod yn amodol ar gyllid - **CAM GWEITHREDU: Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar y cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer llwybr cerdded i mewn i Drefynwy o dai King's Wood Gate**
- Sut y bydd y Cynllun Gweithredu yn cael dylanwad cadarnhaol ar Safonau'r Gymraeg fel y nodir yn yr asesiad effaith?
- 6000 o swyddi a 38 hectar o dir cyflogaeth - p'un sy'n dod gyntaf, swyddi neu dai?
- Ydy 'heneiddio'n gyflym' yn derm priodol?
- Mae'n hanfodol bod gweithwyr y diwydiant gofal yn cael y cymorth cywir gan ei fod yn swydd fedrus iawn
- O ran cefnogaeth hyfywedd i ganol trefi, mae'n drueni nad ydym wedi eu cefnogi'r Nadolig hwn trwy roi parcio am ddim ar y penwythnosau - mae wedi cael ei drin yn wael a dyw busnesau ddim yn hapus
- O ran Twristiaeth, a yw gwaith cynghorau tref yn cael ei gydnabod yn ddigon wrth gynnal digwyddiadau ac ati?
- Beth am Ganolfan Sgiliau yn Nhrefynwy?
- Yn ogystal â phroblemau isadeiledd, mae'r ysgolion yn Nhrefynwy yn llawn; nac yw'r 270 o gartrefi sy'n cael eu cynnig ar gyfer pen uchaf Trefynwy ar y pen anghywir?
- Gweithwyr allweddol a thai fforddiadwy, yn seiliedig ar gyflogau - beth yw'r ffigwr hwnnw? - **CAM GWEITHREDU Rhoi'r ffigur i'r pwyllgor ar gyfer y cyflogau mewn perthynas â thai fforddiadwy**
- Beth yw'r bylchau sgiliau? Os byddwn yn adnabod y rheini, gallwn fynd rhywfaint o'r ffordd i wella'r sylfaen sgiliau sydd gennym.
- Er mwyn i bobl weithio ac aros yn y sir, mae angen i ni ddatblygu rhai o'r safleoedd diwydiannol e.e. nid oes prosesu bwyd ar gyfer y farchnad da byw yn Rhaglan. A allwn ni gynyddu prosesu diwydiannol ar gyfer bwyd?
- Bydd angen i ni ddefnyddio rhywfaint o'n tir ar gyfer tai a datblygu diwydiannol, er mwyn darparu cyflogaeth enfawr.
- Mae ysgol y Brenin Harri'r VIII yn esiampl o'r broblem: nid yw'r rhan fwyaf o staff iau yn byw yn y sir gan na allant fforddio i wneud hynny - yr un peth ar gyfer gweithwyr

cymdeithasol, gweithwyr gofal, ac ati, i annog sylfaen well o sgiliau sydd eu hangen arnom mae angen i ni ddatblygu tai i weithwyr allweddol

- Lefel cyflogaeth o 90% - ydy gweithwyr sy'n byw yn y sir ac yn cymudo mewn mannau eraill neu'n byw a gweithio yn y sir?
- Bellach mae Cil-y-coed a Chas-gwent yn cael eu hystyried yn drefi cymudwyr - sut y bydd hyn yn cael sylw yn y tymor hir?
- Sut y byddwn ni fel awdurdod yn cefnogi ac yn denu mwy o fuddsoddiadau a busnesau, a lle byddwn ni'n dechrau?
- Mae trigolion yn cael trafferth cysylltu â Chyffordd Twannel Hafren a'r rhwydwaith bysiau, ac nid yw'r amseroedd bellach yn cyd-fynd â therfyn cyflymder 20mya - **CAM GWEITHREDU: Rhoi gwybodaeth i'r pwyllgor am y cynigion i wella cysylltiadau bysiau yng Nghyffordd Twannel Hafren**
- Sut fydd yr ardoll parcio yn y gweithle yn effeithio ar ddenu busnesau, a sut y bydd yn gweithio?
- O ran problemau trafniadaeth sy'n cyfyngu ar dwf economaidd, yn ogystal â'r problemau ar gyfer cyflogaeth leol, mae cwmnïau Avonmouth yn poeni am oedi Cas-gwent, ac mae'r terfyn o 20mya bellach hefyd yn achosi oedi e.e. llai o danfoniadau presgripsiwn fferyllfa'r awr.
- Codi tâl yn y gweithle: os codir tâl ar gyflogwyr mewnol ond nid y rhai y tu allan i'r sir yna a fydd yn anghymhelliad i gyflogwyr ddod i mewn i'r ardal?

#### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Roedd yr aelodau eisiau eglurder ynghylch y targed o 6,240 o swyddi ac o ble daeth y ffigwr, a gofyn am ddata manylach am gymudo ardal. Mae yna awydd cryf i edrych ar dai gweithwyr allweddol yn cael eu hystyried, ac roedd nifer o sylwadau am broblemau sy'n cael eu hachosi i weithwyr gan ddiffyg trafniadaeth gyhoeddus a chysylltiadau ffyrdd. Croesawodd yr aelodau'r syniad o Ganolfan Sgiliau, yn enwedig yn ardal Glannau Hafren, ond mae angen un yng ngogledd y sir hefyd. Gwnaed sylwadau am ffordd gyswllt oddi ar yr A48 ymlaen i'r M48, a fyddai'n helpu i annog pobl i gael mynediad i'r sir. Mynegwyd pryderon am ddiffyg trafniadaeth gyhoeddus a'r effaith ar ddisgyblion sydd eisiau mynychu addysg uwch, gan golli allan ar y cyfleoedd hynny. Gwnaed sylwadau am gefnogi canol trefi - mae'n hanfodol bod cynghorau tref yn cymryd rhan a'n bod yn cefnogi manwerthwyr annibynnol. Hoffem weld y gadwyn cyflenwi bwyd yn cael ei datblygu, yn enwedig wrth brosesu bwyd. Rydym yn falch y bydd dadansoddiad pellach o'r bwlch sgiliau. Diolch i'r aelodau am eu cyfraniadau ac i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am eu hymatebion.

#### **4. Tîm Gwella Cymunedol - Craffu ar weithrediadau a threfniadaeth y tîm.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Catrin Maby a Nigel Leaworthy. Atebodd Nigel Leaworthy gwestiynau'r aelodau.

#### **Cwestiynau allweddol gan aelodau:**

- Tud 228, 3.13: 'tîmau tref Cil-y-coed a Magwyr sydd newydd eu ffurfio' – nid yw tîm tref Cil-y-coed newydd ei ffurfio. A yw hyn yn cyfeirio at yr un tîm neu un gwahanol?
- Allwch chi egluro am yr arian praesept?
- Bydd 'Tîm Tref Newydd' yn achosi llawer o ddryswch - oes modd ailenwi hynny?
- Pa mor drwm mae'r tîm yn dibynnu ar wirfoddolwyr, a pha ddisgwyliadau sydd rhwng grwpiau?
- A yw oriau gwirfoddolwyr yn cael eu cofnodi, ac felly cofnod o ba gostau fyddai hebddynt?
- Faint o'r gwaith sy'n adweithiol yn hytrach na rhagweithiol?
- A yw'r grŵp yn gyfrifol am dorri gwrychoedd preswyl, neu a yw hynny'n dîm gwahanol?

- Yn ôl pob tebyg, mae gan ysgubo stryd amserlen benodol, yn hytrach na bod yn adweithiol?
- Ydych chi'n cydlynu unrhyw un o'r gwaith adweithiol o ran ysgubo dail ar yr un pryd â delio â draeniau sydd wedi'u blocio?
- Mae gwrychoedd yn gallu effeithio ar briffyrdd, os nad ydynt yn cael eu torri gan dirfeddianwyr preifat - ydyn ni erioed wedi cyhuddo rhywun os nad ydyn nhw wedi dilyn hysbysiad gorfodi?
- Faint o ysgubwyr oedd yno o'r blaen a faint sydd yno nawr?
- Mae cysylltiad da rhwng timau'r gymuned a'r dref yn Y Fenni sydd wedi gwella'r sefyllfa. Mae'r mater o faeddu gan gŵn a thafu sbwriel yn parhau i fod yn siomedig ond mae'n anodd cadw ar ben hynny gyda thîm cyfyngedig.
- A fyddai cytundeb lefel gwasanaeth Cyngor Tref Trefynwy yn diystyru'r cytundeb lefel safonol?
- Mae yna lawer o negeseuon e-bost gan breswylwyr nad ydyn nhw'n hapus â Natur Wyllt yn nodi yr hoffent i fannau cyhoeddus fod yn fwy taclus. Beth ydyn ni'n edrych arno i reoli chwyn?
- Onid ydych yn cael benthyg yn ôl am ychydig ddyddiau'r mis yr ysgubwr ffyrdd a drosglwyddwyd i Briffyrdd?
- Mae i'w groesawu i roi'r gorau i glyffosad ond mae trigolion ar ben Sandy Lane wedi codi pryderon am gyflwr palmentydd a gyliau - byddai'n ddefnyddiol cael adborth am y sefyllfa gyda dulliau amgen o dynnu chwyn.
- Mae'r adroddiad yn sôn am dimau trefi yn mynd i'r afael â thyllau ffordd - a gawn ni fwy o wybodaeth?
- Mae angen rhywbeth mwy cydgyssylltiedig ynglŷn â sbwriel yng Nghil-y-coed, yn enwedig pan fydd digwyddiadau mawr.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i'r swyddogion a'r timau am eu gwaith caled yn sicrhau glendid yn ein cymunedau, sy'n hanfodol ac sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar gymunedau. Diolch i'r Aelod Cabinet am fod yn bresennol ac edrychwn ymlaen at y drafodaeth yn y flwyddyn newydd am sbwriel.

### **5. Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Lle.**

Nododd y Cyngorydd Strong, yn dilyn y cynnig prostad yn y cyngor llawn, bod angen edrych ar leoedd newid a Fy Niwrnod, Fy Mywyd ar 14<sup>eg</sup> Mawrth gyda'r strategaeth Toiledau. Gofynnodd y Cyngorydd Strong hefyd a fyddai modd ystyried ffyrdd newydd o wella gwaith adnewyddu Canolfan Hamdden Cil-y-coed - **CAM GWEITHREDU:**

Mae angen gohirio Gwefru Cerbydau Trydan a'r Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur o'r 11<sup>eg</sup> Ionawr. Mae angen craffu ar yr eitemau cyn i'r Cabinet eu cymeradwyo'n derfynol ar 10<sup>fed</sup> Ebrill. Nid yw'r Aelodau yn dymuno cynnal cyfarfod ar yr un diwrnod â'r cyngor llawn. Swyddogion i drefnu dyddiad sy'n bodloni'r holl ofynion a hysbysu aelodau wedi hynny - **CAM GWEITHREDU**

Gofynnodd y Cyngorydd Brown am eglurder ynghylch dyddiad y Cabinet ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol: bydd y CCS yn mynd i Bwyllgor Craffu Pobl ar 6<sup>ed</sup> Chwefror ond roedd ar y cynllunydd ar gyfer y cabinet ar y 18<sup>fed</sup> Ionawr – mae wedi'i ddiweddarau i'r 29<sup>ain</sup> Chwefror.

### **6. Cynllunydd Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.**

### **7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Cyfarfod Cyffredin dyddiedig 28 Medi 2023.**

**Cyfarfod Arbennig dyddiedig 23 Hydref 2023..**

23<sup>ain</sup> Hydref: Gofynnodd y Cyngorydd Brown am wneud diwygiad i egluro'r sylw am ddogfen Senedd Cymru, a gafodd ei gymysgu â sylw am y comisiynydd plant - **CAM GWEITHREDU**

**8. Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 11 Ionawr 2024 am 10.00am.**

Gweler trafodaeth y blaengynllun uchod - swyddogion i gadarnhau canslo unwaith y bydd dyddiad newydd ar gyfer yr eitemau wedi'i bennu.

The meeting ended at **12.25 pm**